Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

At rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Heronsbridge; pennaeth, staff a chorff llywodraethu Ysgol Heronsbridge, ymgyngoreion rhagnodedig

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)**
**Education and Family Support Directorate – Directorate Support Unit (EDSU)**
Deialu uniongyrchol / Direct line: (01656) 643643

Ein cyf / Our ref: Ysgol Heronsbridge
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad / Date:** 19 Hydref 2022

Annwyl Ymgynghorai

**Cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Heronsbridge i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer i 300 ac i adleoli'r ysgol o'i lleoliad presennol yn Heol Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr i ddod i rym o ddechrau tymor yr hydref 2025.**

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (y Cod), cynhaliwyd ymarferiad ymgynghori ag ymgyngoreion rhagnodedig a phartïon eraill â diddordeb rhwng 4 Ebrill a 18 Mai 2022. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgyngoreion am y cynnig uchod a gofyn am eu barn.

Ar 14 Mehefin 2022, cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad i'r Cabinet a chyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghori wedi hynny ar wefan y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg ar yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn amlinellu ymateb yr awdurdod lleol i'r materion a godwyd.

Hefyd ar 14 Mehefin, ar ôl ystyried canlyniad y broses ymgynghori yn gydwybodol, rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol ynglŷn â'r cynnig. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 30 Mehefin 2022 am 28 diwrnod a hysbyswyd ymgyngoreion ei fod ar gael.

Mae'r Cod yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgol i gael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a'u hanfon at y cynigydd cyn diwedd 28 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Daeth yr hysbysiad statudol i ben ar 27 Gorffennaf 2022. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiadau ynglŷn â'r bwriad.

Ar 18 Hydref 2022, cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr hysbysiad statudol i'r Cabinet. Dywedwyd wrth y Cabinet, o ystyried natur arbenigol yr ysgol, bod angen cynnal ymgynghoriad

ystyrlon gyda rhaglen strwythuredig o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ar ôl adolygu’r rhaglen yn fanwl, argymhellwyd y dylid addasu dyddiad agor yr ysgol i ganiatáu digon o amser i’r ymgynghoriad â rhanddeiliaid ddigwydd.

Wedi ystyried y mater hwn a barn y corff llywodraethu, derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet i weithredu’r cynnig gyda **dyddiad agor** diwygiedig o **ddechrau tymor y gwanwyn 2026**.

Mae adroddiad y cabinet ar gael mewn copïau caled a fformatau gwahanol ar gais oddi wrth:

| | |
|---|---|
| **Swyddog Cyswllt:** | Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth) |
| **Ffôn:** | (01656) 643643 |
| **E-bost:** | edsu@bridgend.gov.uk |
| **Cyfeiriad Post:** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB |

O ganlyniad i’r cynnig bydd Ysgol Heronsbridge yn trosglwyddo i adeilad ysgol newydd ar Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr adeilad newydd wedi ei gynllunio ar gyfer 300 o ddisgyblion, ar gyfer dysgwyr ag anhwylder sbectrwm awtistig (ASD), anawsterau dysgu difrifol (SLD) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (PMLD) yn oed ysgol gynradd, uwchradd ac ôl-16. Bydd gan yr ysgol ddau dŷ preswyl ar gyfer dysgwyr fydd angen 39 wythnos o ddarpariaeth breswyl. Bydd yr ysgol newydd yn agor ar ddechrau tymor y gwanwyn 2026.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn gwneud y canlynol:

- galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol drwy gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn yr ardal;
- cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth;
- sicrhau y bydd dysgwyr a staff yn elwa o gyfleuster newydd sbon;
- darparu ysgol fydd wedi cael ei dylunio i ddarparu’r amgylchedd dysgu a’r cyfleoedd cwricwlaidd cywir ac sy’n cyd-fynd â Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru;
- mynd i'r afael â phroblemau gorlenwi a chyflwr adeiladau; a
- darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd o gymorth i'r disgyblion gyrraedd eu llawn botensial.

Mae’r rhesymau dros y penderfyniad gyda golwg ar y ffactorau a amlinellir yn y Cod fel a ganlyn:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal safon bresennol yr addysg o leiaf.

Bydd ysgol newydd Heronsbridge yn gyfleuster addas ar gyfer addysgu'r 21ain ganrif a bydd yn darparu llety addas a all gwrdd ag anghenion ei disgyblion yn briodol. Bydd addasrwydd mannau addysgu a mannau nad ydynt ar gyfer addysgu, lle storio a lle i symud o gwmpas, dysgu allan,

chwarae yn yr awyr agored, hylendid personol, a darpariaeth toiledau yn cael sylw er mwyn diogelu lles disgyblion a staff.

Y cyfle i gyflwyno cwricwlwm synhwyraidd-gyfoethog gyda mannau wedi eu dylunio’n arbennig, fydd yn ymestyn y gwersi a ddarperir i ddisgyblion ag Anawsterau Dwys a Lluosog (PMLD), Anawsterau Dysgu Difrifol (SLD) ac anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (ASD) ar draws yr ysgol. Bydd y ddarpariaeth newydd yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion, eu gofal, eu cymorth a’u harweiniad.

Bydd yr ysgol hefyd yn elwa o ddarparu cyfleusterau yn glir sy’n effeithio ar ei chwricwlwm 14 i 19 a darparu mannau addysgu galwedigaethol yn ogystal ag addysgol.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn ardderchog. Y peth mwyaf cadarnhaol yn unrhyw adeilad newydd yw’r ffordd glir y mae gofod wedi cael ei ddynodi ar draws yr ysgol. Bydd y mannau dysgu pwrpasol hyn naill ai o fewn neu y tu allan i’r ystafell ddosbarth yn galluogi’r tîm arwain i gynllunio ar gyfer twf cwricwlwm mwy systematig a pharatoi’r ysgol ar gyfer anghenion disgyblion yn y dyfodol. Mae'r tîm arweiniol bob amser wedi bod ar y blaen yn y sector o ran meddwl am sut y gellir gwella ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y cyfle hwn yn caniatáu iddynt gyflwyno ymarfer sy’n gosod arweiniad i’r sector ar draws y sir a sicrhau bod gan Ben-y-bont ar Ogwr ddarpariaeth addysg gyfannol effeithiol sy’n cwrdd ag anghenion newidiol ei disgyblion mwyaf cymhleth.

Er y gall cynigion trefniadaeth ysgolion achosi peth aflonyddwch ac ansicrwydd, mae profiad yn dangos y gellir cadw hyn i lawr i’r eithaf drwy weithio’n agos gyda thrigolion, y contractwr, y pennaeth, y corff llywodraethu a’r staff. Caiff y trosglwyddiad i'r adeilad newydd ei wneud mewn cydweithrediad â'r ysgol.

Bydd adeilad cynaliadwy ac arloesol newydd yr ysgol a'r safle yn rhoi mwy o gyfleoedd i gysylltu'r prosiect (hynny yw, datblygu’r dyluniad ac adeiladu) â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i’r staff, y disgyblion, y rhieni a’r gymuned ehangach i ymgysylltu’n gadarnhaol â’r broses ddatblygu a sicrhau ei bod yn cwrdd ag anghenion yr ysgol yn y dyfodol a’r gymuned y bydd yn ei gwasanaethu.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Bydd mwy o gapasiti i gefnogi ein dysgwyr mwyaf cymhleth o fewn yr awdurdod lleol a bydd yn lleihau'r angen i chwilio am leoliadau y tu allan i'r awdurdod. Bydd y cynnig yn lleihau'r pwysau ar ddosbarthiadau arsylwi ac asesu ar draws yr awdurdod lleol sy'n darparu ar gyfer disgyblion meithrin ag anghenion cymhleth hyd nes y gallant gael mynediad i’r Dosbarth Derbyn yn Ysgol Heronsbridge.

Gan y gallai ysgol sy’n rhy fawr wanhau ansawdd yr addysgu a’r dysgu, ystyrir mai ysgol â 300 o leoedd yw’r terfyn lle nad yw ansawdd yr addysgu, ymyrraeth, rheolaeth a llywodraethu yn cael ei golli. Ystyrir bod y capasiti disgwyliedig o 300 yn gynaliadwy.

Mae safle Fferm yr Ynys tua milltir o safle'r ysgol bresennol ac felly rhagwelir mai ychydig iawn o effaith, os o gwbl, fydd ar gludiant i'r disgyblion.

Bydd dysgwyr yn cael cludiant ysgol am ddim yn unol â pholisi cludiant ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gellir gweld y Polisi Cartref i'r Ysgol/Coleg drwy'r ddolen gyswllt ganlynol:
https://www.bridgend.gov.uk/media/5632/home-to-school-or-college-transport-policy v2.pdf

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i symud ymlaen gyda chynlluniau i dyfu'r Gymraeg yn strategol a'i fwriad, gyda chynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad sylweddol, yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni gweledigaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Er mwyn cyfrannu i hyn bydd cyfle i grwpiau Cymraeg gyfarfod neu dderbyn hyfforddiant yn yr ysgol gyda'r nos a chynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellir gweld Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yr awdurdod lleol drwy'r ddolen ganlynol:

Y fersiwn Gymraeg:
https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/y-gymraeg/

Y fersiwn Saesneg:
https://www.bridgend.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/welsh-language

Bydd cyfleusterau'r ysgol newydd yn rhoi cyfle i gynnig cyrsiau Cymraeg i rieni/gofalwyr a thrwy hynny gynyddu cyfleoedd iaith Gymraeg a byddant yn cefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol ac agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Bydd adeilad yr ysgol a'r mannau allanol wedi cael eu dylunio'n addas i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill**

Nid oes darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) dros ben yn yr awdurdod lleol. Ar hyn o bryd mae rhestrau aros a phecynnau pwrpasol ychwanegol a ddefnyddir ar gyfer rhai darpariaethau gan gynnwys Ysgol Heronsbridge.

Bydd y cyfle i gyflwyno cwricwlwm synhwyraidd-gyfoethog gyda mannau wedi eu darparu a'u dylunio'n arbennig yn ymestyn ymhellach y gwersi a gyflwynir i ddisgyblion ag anableddau dysgu dwys a lluosog (ADDLl) / anawsterau dysgu penodol (SLD) a disgyblion ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASA) yn yr ysgol.

Mae darparu cyfleusterau newydd yn cefnogi strategaeth ehangach y Cyngor i gynyddu cyfleoedd i gyflwyno cyrsiau Cymraeg.

Darperir cyllid drwy fformiwla ariannu ysgolion sy'n dyrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid i ysgolion ar sail niferoedd disgyblion. Ni fydd goblygiadau refeniw, gan gynnwys costau cludiant ychwanegol oherwydd ehangu'r ysgol, yn hysbys hyd nes y bydd y cynllun wedi cael ei ddatblygu ymhellach. Mae'r strwythur staffio a fydd yn cyd-fynd â phoblogaeth ychwanegol yr ysgol yn debygol o gynyddu dros gyfnod. Y corff llywodraethu fydd yn gyfrifol am y strwythur staffio, fydd yn cael ei benderfynu'n bennaf gan anghenion addysgol yr ysgol a'r gyllideb sydd ar gael.

Mae'r cynllun hwn yn arwain at fuddsoddiad cyfalaf sylweddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd mai cyfanswm cost y prosiect yw £34 miliwn. Bydd hyn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth

Cymru o dan Fand B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar gyfradd ymyrraeth o 75% a chaiff gweddill y cyllid cyfalaf ei gyfrannu gan y Cyngor. Caiff cost y cynllun ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol y prosiect ac adroddir am unrhyw newidiadau wrth y Cabinet a'r Cyngor fel y bo'n briodol.
Nid yw unrhyw gyfalaf a dderbynnir am yr hen safle wedi cael ei neilltuo ar gyfer y safle newydd, ond bydd ar gael i'r Cyngor i ariannu cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol (nad ydynt wedi'u pennu eto).

**Ffactorau cyffredinol eraill**

Mae sgrinio cychwynnol Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi nodi na fydd unrhyw effaith negyddol ar y rhai sydd ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol nac ar y defnydd o'r Gymraeg. Nodwyd effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys anabledd a rhyw.

Gan y bydd Ysgol Heronsbridge yn cael ei hadeiladu ar safle Fferm yr Ynys, sydd wedi ei leoli yn yr un ardal ddaearyddol â safle'r ysgol bresennol, ni ragwelir effaith negyddol ar y gymuned. Bydd disgyblion yn mynychu ysgol yr 21ain ganrif newydd, fydd wedi cael ei dylunio gyda defnydd cymunedol mewn golwg. Gall hyn fod o fudd i deuluoedd, disgyblion a chlybiau lleol. Rhagwelir effaith gadarnhaol o ganlyniad i ddarparu cyfleusterau modern, hygyrch.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a daeth i'r casgliad y bydd effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth Gymraeg; y gellir defnyddio cyfleusterau'r ysgol newydd ar gyfer cyrsiau Cymraeg.

**Dosbarthiadau meithrin**

Bydd y cynnydd mewn lleoedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer chwe lle cyfwerth ag amser llawn ar gyfer dosbarth meithrin asesu amlddisgyblaethol, fydd yn parhau o dan becynnau presennol. Bydd hyn yn lleihau costau presennol a phecynnau Blynyddoedd Cynnar ond yn canolbwyntio ar ddisgyblion y Blynyddoedd Cynnar fydd yn mynd i Ysgol Heronsbridge. Caiff y disgyblion hyn eu cynnwys yn y rhagamcanion ar gyfer disgyblion. Bydd darparu lleoedd meithrin yn Ysgol Heronsbridge yn rhyddhau darparwyr Blynyddoedd Cynnar lleol eraill (gan gynnwys Y Bont) i gefnogi mwy o'r plant iau sy'n aros am gyfleoedd cyn-ysgol ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth (ADY) sy'n dod i'r amlwg. Bydd hefyd yn galluogi ymhellach yr ymateb graddedig sy'n ofynnol gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 a bydd yn gymorth i benderfynu ar y lleoliad ysgol mwyaf priodol.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Bydd darparu ysgol bwrpasol ar gyfer yr 21ain ganrif gyda 300 o leoedd yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol PMLD, SLD ac ASD. Bydd safon yr adeiladau'n well, a chaiff problemau digonolrwydd ac addasrwydd eu datrys. Caiff materion diogelu, iechyd a diogelwch a lles eu hystyried a byddant yn derbyn sylw drwy'r dyluniad.

Caiff problemau lleoliadau y tu allan i'r sir eu datrys drwy ddarparu lleoedd ychwanegol.

*Mae penderfyniad y Cabinet ar 18 Hydref 2022 yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y'u nodir yn Rhan 4 Rheolau Gweithdrefnau yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i benderfyniadau a wneir gan y Cabinet ond sydd eto i'w gweithredu gael eu hadolygu. Pe bai hysbysiad galw i mewn dilys yn cael ei dderbyn gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, byddai'r holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.*

Yn gywir




**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**